Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cymedroli asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3: adolygiad o gywirdeb a chysondeb

Medi 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi arfer dda gyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **4** |
| **Cymedroli a safoni cyn-clwstwr ysgolion** | **5** |
| **Cyfarfodydd cymedroli clwstwr** | **10** |
| **Camau gweithredu ysgolion i ymateb i gymedroli clwstwr** | **12** |
| **Rôl consortia ac awdurdodau lleol** | **14** |
| **Atodiad:  Sail y dystiolaeth** | **15** |
| **Geirfa** | **16** |
| **Cyfeiriadau** | **17** |

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2016-2017. Mae'r adroddiad yn archwilio effeithiolrwydd gweithdrefnau cymedroli a safoni clwstwr o ran sicrhau asesiadau dibynadwy gan athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a 3.

Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Mae canfyddiadau'r arolwg wedi eu seilio ar ymweliadau ag wyth cyfarfod cymedroli clwstwr, dau ym mhob un o'r consortia rhanbarthol, wedi eu dilyn gan ymweliadau â dwy ysgol ym mhob clwstwr. Yn ystod yr ymweliadau, ystyriodd arolygwyr effeithiolrwydd cyfarfodydd cymedroli clwstwr a gweithdrefnau mewnol ysgolion ar gyfer sicrhau asesiadau cywir gan athrawon. Bu arolygwyr yn canolbwyntio'n benodol ar gymedroli Saesneg, Cymraeg a Chymraeg ail iaith. Fe wnaethant hefyd arfarnu i ba raddau y mae darparwyr yn gyfarwydd â'r gofynion statudol newydd ar gyfer cymedroli clwstwr.

## Cefndir

Er 2006, pan ddaethpwyd â'r drefn allanol o farcio profion asesu safonol i ben, mae ysgolion wedi creu lefelau asesiadau athrawon mewn ystod o feysydd pwnc fel mesur crynodol allweddol o gynnydd disgyblion. Mae athrawon yn gwneud yr asesiadau hyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (Blwyddyn 6) ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 (Blwyddyn 9). Caiff y barnau eu llunio ar sail corff llawn y gwaith a gwblhawyd gan bob disgybl yn ystod y cyfnod allweddol ar sail 'gweddu orau'.

Disgwylir i ysgolion sicrhau bod deunyddiau enghreifftiol a grëwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu defnyddio i lywio dealltwriaeth athrawon o'r safonau sy'n gysylltiedig â phob lefel. Mae'n ofynnol i ysgolion gymedroli'n fewnol i sicrhau cysondeb a dibynadwyedd ar draws yr ysgol. Mae ysgolion uwchradd yn gweithio gyda'u hysgolion cynradd partner mewn grwpiau clwstwr i gymedroli lefelau ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3 gyda'r bwriad i sicrhau cysondeb wrth gymhwyso lefelau. Mae consortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol yn goruchwylio'r cyfarfodydd hyn yn ogystal â chynorthwyo ysgolion wrth iddynt asesu gwaith disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn a nifer o gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon ynghylch cywirdeb, cysondeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon dros nifer o flynyddoedd. Yn 2010, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn gwblhau arolwg thematig o asesiadau athrawon. Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad gan Gyngor Ymchwil Addysg Awstralia (ACER) hefyd, sef *Ymchwiliad i asesiadau athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yng Nghymru,* yn 2013. Canfu'r ddau adroddiad fod cwestiynau ynglŷn â chywirdeb barnau ar safonau disgyblion, a bod anghysondeb mewn trefniadau cymedroli clwstwr a'r modd yr oedd ysgolion yn defnyddio arweiniad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ystod o ddogfennau generig a phenodol i bwnc fel ei gilydd, i gefnogi asesiadau athrawon, gan gynnwys:

- *Saesneg – Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2008a)
- *Cymraeg – Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Cymraeg yn unig) (2008b)
- *Manteisio i'r eithaf ar asesu 7-14*. (2010)
- *Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015a)
- *Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015b)
- *Cymraeg Ail Iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2015c)
- *Trefniadau asesu statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2015d).*

Yn 2015, cyflwynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015.* Mae'r gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ysgolion gymryd rhan mewn cymedroli grwpiau clwstwr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae hefyd yn ei gwneud yn statudol i'r holl benaethiaid a/neu staff perthnasol gymryd rhan yng nghyfarfodydd cymedroli'r clystyrau perthnasol. Mae'r gorchymyn yn datgan hefyd y gall prif swyddog addysg yr awdurdod lleol fynychu cyfarfodydd clwstwr cymedroli ysgolion.

Yn haf 2015, cyflwynwyd rhaglen genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, sef 'Sicrhau Asesiadau Athrawon – Rhaglen Wirio Allanol'. Cynlluniwyd y rhaglen i gryfhau cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon trwy roi adborth o ansawdd da i athrawon, penaethiaid a'r holl randdeiliaid allweddol. Dyfarnwyd y contract gan Lywodraeth Cymru i bartneriaeth o'r pedwar consortiwm rhanbarthol a CDSM Interactive Solutions, wedi'i gefnogi gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Mae'r rhaglen wedi cynnal dau adolygiad blynyddol hyd yn hyn. Nid yw'r arolwg hwn yn arfarnu effeithiolrwydd y rhaglen hon.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae cymedroli asesiadau athrawon mewn ysgolion yn effeithiol pan fydd digon o dystiolaeth ar gael.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw ystod y dystiolaeth yn cwmpasu holl feysydd y disgrifiwr lefel nac yn dangos tystiolaeth o ddrafftio neu gymorth gan yr athro wrth gwblhau gwaith.  Yn yr achosion, hyn, mae ysgolion yn dyfarnu'r lefel er gwaethaf ystod gyfyngedig o dystiolaeth.  Pan fydd y dystiolaeth yn canolbwyntio ar fersiynau terfynol neu ddarnau gorau a ddewiswyd, mae hyn yn arwain at chwyddo'r lefelau a gyflawnir.

2 Mewn cymedroli clwstwr, mae'r rhan fwyaf o ysgolion naill ai'n dod â gwaith sy'n dangos fersiwn gadarn neu uwch o lefelau.  O ganlyniad, mae cyfarfodydd yn canolbwyntio gormod ar gymedroli lefelau gwaith y mae athrawon yn gwybod eisoes eu bod yn gywir.  Mae hyn yn golygu bod clystyrau'n gwastraffu amser yn canolbwyntio ar weithgareddau nad ydynt yn ychwanegu gwerth.  Nid oes digon o ffocws yn y cyfarfod cymedroli clwstwr ar drafod gwaith disgyblion sydd ar y ffin rhwng lefelau.

3 Mewn rhai achosion, mae athrawon yn ystyried ystod gyfan gwaith disgybl, gan gynnwys llyfrau gwaith cyfan a drafftiau, yn ystod cyfarfodydd cymedroli yn yr ysgol a chyfarfodydd clwstwr.  Mae hyn yn golygu y gall athrawon gael golwg mwy cyfannol sy'n 'gweddu orau' ar safonau'r disgybl, trwy gael samplau o ystod gyfan gwaith y disgybl yn ystod cymedroli.  Mae hyn yn cryfhau'r broses gymedroli trwy leihau tuedd anymwybodol o ran defnyddio darnau o waith a ddewiswyd, fel drafftiau terfynol, sy'n creu proffil dysgwr.

4 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cyfeirio at eu deunyddiau enghreifftiol a'u deunyddiau safoni eu hunain neu at rai Llywodraeth Cymru i wirio eu penderfyniadau yn ystod cyfarfodydd cymedroli mewnol.  Yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd cymedroli clwstwr, mae deunyddiau enghreifftiol a deunyddiau safoni ar gael, ond anaml y caiff y deunyddiau hyn eu defnyddio, neu y cyfeirir atynt.

5 Mae bron pob ysgol yn ymgymryd â gwaith asesu ychwanegol i baratoi proffiliau dysgwyr ar gyfer y cyfarfod cymedroli clwstwr.  Mae'r rhain yn cynnwys labelu helaeth o ran gwaith dysgwyr, nodi'r dystiolaeth ar gyfer pob elfen o'r disgrifiwr lefel, a pharatoi 'sylwebaethau disgyblion' i esbonio'r lefel a ddyfarnwyd.  Er bod yr arfer hon yn ddefnyddiol o ran cryfhau dealltwriaeth athrawon o'r meini prawf ar gyfer lefelau, mae'n aml yn dasg ddiangen ar gyfer cyfarfodydd cymedroli clwstwr, gan fod y proffiliau a gyflwynir yn gyffredinol yn dangos lefel gadarn ac ychydig iawn o anghytuno a geir am y lefelau.

6 Mae adroddiadau clwstwr sy'n dilyn cyfarfodydd cymedroli yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweithdrefnol gydag ychydig iawn ohonynt yn nodi camau gweithredu i adolygu a diwygio lefelau proffiliau dysgwyr.  Er y byddai llawer o ysgolion yn addasu lefel proffiliau dysgwyr unigol pe baent yn cael cyfarwyddyd gan y clwstwr i wneud hynny, mae graddau'r cytuno a welir mewn cyfarfodydd cymedroli clwstwr yn cyfyngu ar yr angen am weithredu pellach.  Nid yw ysgolion yn adolygu a diwygio lefelau proffiliau dysgwyr ar gyfer gweddill y garfan yn rheolaidd.

7 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cefnogi’r rhan fwyaf o ysgolion yn dda yn y gweithdrefnau ar gyfer cymedroli. Fodd bynnag, mae rôl cynrychiolwyr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol mewn cymedroli safonau yn aneglur o ran sicrhau lefelau cyson ar draws clystyrau.

8 Eleni, fe wnaeth cymedroli clwstwr ganolbwyntio ar Gymraeg a Saesneg. Mae ystod y dystiolaeth i gefnogi safonau disgyblion mewn ysgrifennu yn gryfach nag ydyw ar gyfer darllen, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mewn rhai ysgolion uwchradd, nid oes digon o amrywiaeth na chyfle yng ngwaith disgyblion i asesu’r gwahanol fathau o fedrau darllen, yn enwedig medrau lefel uwch fel cyfosod. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd, naill ai nid oes digon o dystiolaeth wedi ei chofnodi neu mae tystiolaeth o ansawdd gwael i gefnogi asesiadau athrawon o lafaredd.

## Argymhellion

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia lleol:**

A1 Ddatblygu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer ysgolion i sicrhau cysondeb yn y barnau ar gyfer llafaredd, digonolrwydd sail y dystiolaeth, cymhwyso’r dull ‘gweddu orau’ yn well, a chymedroli gwaith sydd ar y ffin rhwng lefelau

A2 Adolygu eu rôl mewn sicrhau safonau cyson ar draws clystyrau, awdurdodau a rhanbarthau

**Dylai ysgolion:**

A3 Ystyried ystod eang o waith disgyblion wrth asesu a chymedroli lefelau

A4 Rhoi ystyriaeth briodol i lefel y cymorth, y prosesau drafftio, effaith marcio athrawon a digonolrwydd y dystiolaeth wrth ddyfarnu lefel derfynol

A5 Canolbwyntio ar waith disgyblion sydd ar ffin is lefelau wrth gymedroli mewn ysgolion ac mewn cyfarfodydd clwstwr

A6 Gwneud yn siŵr bod yr holl lefelau’n cael eu hadolygu a’u haddasu’n briodol ar ôl cymedroli mewnol a chymedroli clwstwr a chyn cyflwyno lefelau terfynol

A7 Cyfeirio at ddeunyddiau safonedig wrth asesu, cymedroli a safoni mewn ysgolion ac mewn cyfarfodydd clwstwr

## Cymedroli a safoni cyn-clwstwr ysgolion

9 Bron ym mhob ysgol, mae disgyblion yn gwneud llawer o waith, sy’n arwain at ystod eang o dystiolaeth i asesu ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Er bod ystod y dystiolaeth yn gyffredinol eang ar gyfer ysgrifennu, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ar gyfer darllen, mae gwendidau yn sail y dystiolaeth ar gyfer llafaredd.

10 Mae bron pob ysgol gynradd yn defnyddio ystod helaeth o dasgau ysgrifennu a darllen i nodi lefel gwaith disgyblion. Mae’r rhain yn cynnwys ysgrifennu at wahanol ddibenion, er enghraifft i argyhoeddi pobl i gyfrannu at elusen, hysbysu’r cyhoedd am stori newyddion, trafod materion fel gwisg ysgol gyda chymuned yr ysgol, a llefaru stori ddychmygus . Caiff y dystiolaeth hon ei chasglu o waith disgyblion ar draws y cwricwlwm ac nid yn unig o’u gwaith mewn gwersi Cymraeg neu Saesneg. Mae hyn yn darparu darlun cynhwysfawr o lefel y gwaith a gyflawnir gan ddisgyblion.

11 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn casglu ystod o dystiolaeth i arfarnu lefelau llafaredd disgyblion. Mae’r rhain yn cynnwys trafodaethau grŵp ar destunau cyfoes, cyflwyniadau unigol, adroddiadau newyddion a sgyrsiau chwarae rôl, er enghraifft. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, nid oes digon o dystiolaeth wedi ei chofnodi, ac mae hyn yn rhwystro’r cymedroli.

12 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae ystod y tasgau ar gyfer darllen ac ysgrifennu yn helaeth ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion uwchradd, nid oes digon o amrywiaeth yng ngwaith disgyblion i asesu’r gwahanol fathau o fedrau darllen. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn dibynnu gormod ar draethodau sy’n canolbwyntio ar ddadansoddi arddull ysgrifenwyr. Yn yr ysgolion hyn, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfle i ddatblygu a dangos medrau darllen lefel uwch fel cyfosod a chymathu ymchwil annibynnol, ac nid yw’r deunyddiau darllen yn ddigon amrywiol na soffistigedig.

13 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, ceir cyfleoedd addas ac amrywiol i ddisgyblion ddatblygu a dangos medrau llafar priodol yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes digon o dystiolaeth wedi ei chofnodi i safoni a chymedroli llafaredd. Mae’r diffyg tystiolaeth hwn, ynghyd ag ansawdd gwael y cofnodi, yn cyfyngu ar allu ysgolion i gymedroli lefelau cyflawniad disgyblion. Ceir heriau technegol sylweddol o ran sicrhau tystiolaeth gyson a dibynadwy ar gyfer llafaredd, yn enwedig wrth gofnodi a storio ystod eang briodol ar gyfer carfanau mawr o ddisgyblion.

14 Mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd, mae’r tasgau a osodir yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni’r lefelau uwch neu wneud cynnydd i lefel uwch.

15 Mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn seilio’r lefelau a ddyfernir i ddisgyblion ar y dystiolaeth a ddarperir ar gyfer cymedroli. Mewn lleiafrif o’r ysgolion hyn, lle nad oes digon o dystiolaeth i gwmpasu holl feysydd y disgrifiwr lefel, nid ydynt yn cymryd camau i gasglu mwy o dystiolaeth i gadarnhau lefel cyflawniad disgybl. Yn yr achosion hyn, maent yn dyfarnu’r lefel er gwaethaf y diffyg tystiolaeth. Mae hyn yn aml yn arwain at wyrdroi’r safonau a gyflawnir.

16 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad clir i ysgolion y dylid defnyddio'r disgrifiadau lefel wrth ystyried ystod eang o waith disgybl yn unig. Yn fwy diweddar, mae consortia rhanbarthol wedi rhoi arweiniad i ysgolion hefyd i ystyried ystod lawn gwaith y disgyblion wrth ddyfarnu lefelau.

17 Mae llawer o ysgolion bellach yn canolbwyntio ar lyfrau cyfan disgyblion wrth farnu'r lefel gyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol.

18 Er bod bron yr holl ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i gefnogi asesu a llunio barnau am y safonau cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol, mae rhai ohonynt yn defnyddio enghreifftiau dethol yn unig ar gyfer ysgrifennu, darllen a llafaredd i fynd ymlaen i gyfarfodydd cymedroli clwstwr.

19 Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn canolbwyntio o hyd ar ddefnyddio darnau o waith gosod, asesedig fel proffil y dysgwr i lefelu cyflawniadau disgyblion, yn hytrach nag ystod gyfan eu gwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar ystod y medrau y gall disgybl eu dangos, a gall rwystro'r lefel sy'n 'gweddu orau' a gyflawnir gan ddisgyblion.

20 Mae llawer o ysgolion yn cynnwys enghreifftiau o fersiynau terfynol fel rhan o broffil y dysgwr. Mewn llawer o'r achosion hyn, mae ysgolion yn darparu drafftiau cyntaf a drafftiau dilynol, sy'n galluogi'r athro a/neu'r cymedrolwr weld dilyniant disgyblion dros gyfnod. Mae defnyddio'r llyfr cyfan yn gwella'r broses hon. Mae hyn yn galluogi'r ysgolion hyn i lunio barn ar lefelau terfynol disgyblion trwy gael samplau o ystod gyfan gwaith y disgyblion. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn cynnwys tystiolaeth mewn ystod o fformatau a phrosesau, er enghraifft o dan amodau prawf, fel gwaith cartref, wedi ei hysgrifennu â llaw ac wedi ei llunio trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a fersiynau drafft unigol a lluosog. Mae'r dull amrywiol hwn, gan gynnwys defnyddio'r llyfr cyfan, yn darparu sylfaen fwy dibynadwy ar gyfer asesu'r safonau y mae disgyblion wedi eu cyrraedd.

21 Mewn llawer o ysgolion cynradd ac yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae athrawon yn rhoi lefelau wrth farcio darnau unigol o waith, yn aml fersiynau terfynol. Mae hyn yn groes i gyngor gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n golygu bod y lefelau a adroddir yn gamarweiniol. Mewn ychydig iawn o achosion, er bod ysgolion yn defnyddio llyfrau gwaith cyfan disgyblion fel rhan o'r broses lefelu a chymedroli, mae'r ffocws ar lefelu drafftiau terfynol o ddarnau gwaith unigol wedi arwain yn uniongyrchol at chwyddo lefelau cyffredinol.

22 Mewn lleiafrif o achosion, ni chaiff drafftio a chymorth gan yr athro eu dogfennu yn llyfrau gwaith disgyblion nac ym mhroffiliau'r dysgwyr. Nid yw hyn yn ddefnyddiol, ac mae'n arwain at farnau anghywir am lefelau.

**Gweithdrefnau cymedroli ysgolion**

23 Mae *Trefniadau asesu statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2015d) Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid 'gyflwyno trefniadau, gan ddefnyddio detholiad o broffiliau dysgwyr, er mwyn i athrawon allu cymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol, a chymhwyso canlyniadau'r cymedroli mewnol hwn cyn pennu cyrhaeddiad diwedd cyfnod allweddol pob dysgwr yn derfynol, (tud.9).' Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu

arweiniad hefyd yn *Manteisio i'r eithaf ar asesu 7–14* (2010) na ddylai ysgolion ddefnyddio disgrifiadau lefel ar gyfer darnau o waith unigol.  Maent yn rhybuddio ysgolion i ofalu 'osgoi ffocws amhriodol, cul i'r wybodaeth asesu' os ydynt yn defnyddio lefelau i fonitro neu olrhain cynnydd disgyblion dros gyfnodau byr, (tud.9).

24 Mewn llawer o ysgolion, mae dryswch ynglŷn â safoni a'r gofynion statudol ar gyfer cymedroli asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol.  Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal cyfarfodydd trwy gydol y flwyddyn i gymedroli cywirdeb asesiadau athrawon, olrhain safonau disgyblion trwy gymryd lefelau dangosol ar adegau allweddol a gwneud addasiadau i arferion asesu ar gyfer dysgu.  Er bod y gweithgareddau hyn yn gynhyrchiol, ar eu pen eu hunain, nid ydynt yn disodli'r gofynion cymedroli a amlinellir yng nghyngor Llywodraeth Cymru.

25 Canlyniad arferol cymedroli yw cadarnhau neu ddiwygio'r lefelau terfynol a gyflawnir gan ddisgyblion.  Fodd bynnag, mae canlyniad y prosesau cymedroli y mae llawer o ysgolion yn ymgymryd â nhw, er ei fod yn gynhyrchiol, yn wahanol.  I lawer, yn enwedig yn gynharach yn y flwyddyn ysgol, mae'n arwain at gadarnhau neu addasu'r ffyrdd y mae athrawon yn asesu.  Mae hyn yn cyd-fynd yn fwy â rôl safoni.  Mewn lleiafrif o achosion, defnyddir canlyniad cymedroli i lywio'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i gyflawni'r lefel nesaf, trwy ddiwygio neu ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion.  Mae hyn yn cyd-fynd yn fwy â datblygu arferion asesu ar gyfer dysgu.  Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio eu gweithdrefnau cymedroli i baratoi ar gyfer cyfarfodydd cymedroli clwstwr hefyd.  At ei gilydd, nid oes dealltwriaeth ddigon clir bob amser o rôl safoni a chymedroli mewn ysgolion.  Er bod y prosesau hyn i fonitro asesu i gyd yn gynhyrchiol, nid oes digon o ffocws ar gymedroli mewnol trylwyr o ran y lefelau terfynol ar ddiwedd y cyfnod allweddol ar draws y garfan gyfan.

26 Mae'r dull cymedroli'n amrywio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.  Bron ym mhob ysgol gynradd, mae'r broses gymedroli'n cynnwys athrawon Blwyddyn 6 ac uwch arweinwyr.  Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion cynradd yn defnyddio rhaglenni dadansoddi data neu olrhain asesiadau hefyd i adolygu cymedroli mewnol, gan wirio bod lefelau dangosol a lefelau terfynol yn cyd-fynd â thargedau disgwyliedig.

27 Mewn ysgolion uwchradd, arweinwyr canol sydd â'r prif gyfrifoldeb am gymedroli.  Yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae uwch arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd rheolwyr llinell, neu'n cynnal dadansoddiadau data i fonitro'r broses hon.  Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion uwchradd, nid yw uwch arweinwyr yn gwirio'r prosesau cymedroli'n ddigon agos, ac nid ydynt yn gwirio a yw lefelau'n cael eu herio gan adrannau o ganlyniad i gymedroli.

28 Mae bron pob un o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn sicrhau bod athrawon yn dod ag ystod addas o broffiliau dysgwyr ar wahanol lefelau i'w cymedroli'n fewnol.  Mewn llawer o achosion, mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o ddisgyblion gallu uwch, cymedrol ac is i ddangos ystod y gwaith ar draws y dosbarth cyfan neu enghreifftiau cadarn a ffiniol o lefel benodol.  Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n targedu gwaith sydd ar y ffin rhwng lefelau neu'n cymryd samplau o waith ar hap.  Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn yn lleihau dibynadwyedd y cymedroli o ran sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon ar draws y garfan gyfan.

29 Mewn llawer o ysgolion cynradd, ceir dull cydweithredol o safoni, sy'n datblygu dealltwriaeth well o asesu a lefelu. Mewn rhai ysgolion, yn enwedig lle mae un athro yn unig ym Mlwyddyn 6, uwch arweinwyr neu athrawon sydd â chyfrifoldeb am asesu sy'n cymedroli'r gwaith. Mewn ysgolion uwchradd, ceir dull cydweithredol tebyg, ond mae hyn yn gweithredu ar lefel adrannol. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae'r pennaeth adran, yn aml gyda'r athro sydd â chyfrifoldeb am gyfnod allweddol 3, yn ychwanegu lefel arall o gymedroli trwy samplau ychwanegol yn ystod ymarferion craffu. Maent yn ystyried ystod eang o waith ar draws y cwricwlwm. Mae'r dull hwn yn cryfhau'r broses gymedroli ac yn cefnogi asesu mwy dibynadwy.

30 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd, mae athrawon yn canolbwyntio'n briodol ar y disgrifwyr lefel wrth farcio ac asesu proffiliau dysgwyr. Ategir hyn gyda deunyddiau defnyddiol o'r consortia rhanbarthol, fel ysgolion dysgu, sy'n disgrifio'r medrau a amlinellir ym mhob disgrifiwr lefel eu camau datblygu cynyddol.

31 Bron ym mhob ysgol, mae athrawon yn deall bod angen cymhwyso dull sy'n 'gweddu orau' wrth gymedroli proffiliau dysgwyr. Fodd bynnag, bu dryswch a diffyg eglurder ynglŷn â sut i gymhwyso 'dull gweddu orau'. Mewn rhai achosion, mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi ychwanegu at y dryswch mewn blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, dywedodd ysgolion eu bod wedi derbyn negeseuon i ddyfarnu lefel os yw'r disgybl 'yn ei chyrraedd i ryw raddau', neu 'y dylid bodloni 75% o'r disgrifiwr'. Er bod cymorth mwy defnyddiol wedi cael ei roi yn ddiweddar, gallai'r negeseuon hyn fod wedi arwain at anghysondeb a lefelau chwyddedig.

32 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cyfeirio at ddeunyddiau safonedig i wirio neu gefnogi eu penderfyniadau *yn ystod* cyfarfodydd cymedroli. Yn y rhan fwyaf o achosion, ystyrir bod profiad athrawon a'u gwybodaeth bresennol am feini prawf asesu yn ddigonol i sicrhau cywirdeb. Mae hyn yn gwneud y broses gymedroli'n llai cywir.

33 Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon ac uwch arweinwyr yn gweithio mewn parau neu mewn grwpiau o dri i gymedroli proffiliau dysgwyr. Mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio dull economi gymysg, gan amrywio methodoleg cymedroli i ddatblygu'r ddealltwriaeth o asesu yn llawnach a chraffu ar broffiliau dysgwyr yn fwy cynhwysfawr. Mae dulliau'n cynnwys cyfres o adolygiadau o broffiliau dysgwyr, adolygiadau o lyfrau, adolygiadau o dasgau unigol, adolygu yn ôl lefel, hap samplau, adolygiadau gwag o lyfrau disgyblion a lefelu copi dall gan yr holl athrawon. Mae'r golwg aml haenog hwn ar asesu a chymedroli yn arwain at ddibynadwyedd gwell, fel yr amlinellir yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sef *Ymchwiliad i asesiadau athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yng Nghymru (ACER, 2013)*.

34 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ystyried bod cymedroli mewnol yn dangos bod athrawon ystafell ddosbarth yn asesu lefelau'n gywir yn y rhan fwyaf o achosion. Pan fydd anghytuno ynglŷn â lefelau, yr arweinwyr pwnc neu asesu sydd â'r gair olaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, dywed ysgolion pan fyddant yn darganfod anghywirdeb, fod tua hanner ohonynt yn rhy hael a thua hanner ohonynt yn rhy llym. Fodd bynnag, gan nad yw'r broses o ddewis proffiliau dysgwyr yn ddigon trylwyr, nid yw'r lefel hon o gywirdeb a adroddwyd yn ddibynadwy.

35 O ganlyniad i nifer o enghreifftiau o anghywirdeb a ganfuwyd trwy gymedroli, ac o ganlyniad i ddull y prosesau cymedroli parhaus, mewn ychydig iawn o achosion yn

unig y mae ysgolion yn newid lefelau i ymateb i gymedroli mewnol. Mewn llawer o'r achosion lle canfyddir anghywirdeb, mae ysgolion yn dychwelyd at broffil y dysgwr yn y cyfarfod nesaf, gan ddilyn ag adolygiad ehangach o asesiadau'r athro neu'n gofyn am fwy o dystiolaeth i ddyfarnu lefel.

**Gweithdrefnau safoni ysgolion**

36 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Saesneg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2008a) a *Cymraeg - Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (Cymraeg yn unig)* (2008b) i roi enghreifftiau safonedig i ysgolion o ddisgyblion yn gweithio ar lefelau gwahanol. Fodd bynnag, er eu bod yn nodi yn y crynodeb bod yr enghreifftiau'n adlewyrchu nodweddion sy'n nodweddiadol o'r lefel yn unig, mae'r dogfennau hyn yn defnyddio darnau asesu unigol i roi enghreifftiau o lefelau, sef arfer nad yw Llywodraeth Cymru yn ei chefnogi erbyn hyn.

37 Mae *Trefniadau asesu statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2015d) Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid 'gael trefniadau lle gall athrawon gadarnhau a chynnal dealltwriaeth ar y cyd o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol, gan ddefnyddio samplau o waith eu dysgwyr i gynhyrchu set o enghreifftiau (gweithdrefnau safoni) (tud.8)'.

38 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir rhaglen safoni reolaidd briodol i gynorthwyo athrawon i godi eu hymwybyddiaeth o safonau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae natur y cymorth ar gyfer safoni yn digwydd mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y ddau sector. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio enghreifftiau safonedig wedi eu creu gan ysgolion neu wedi eu cynhyrchu gan glystyrau yn y gorffennol. Mae lleiafrif o ysgolion yn cynorthwyo athrawon ag adnoddau wedi eu cynhyrchu gan gonsortia neu drwy ddefnyddio dogfennau Llywodraeth Cymru. Mewn llawer o ysgolion, caiff deunyddiau eu dosbarthu, neu trefnir eu bod ar gael mewn cyfarfodydd bob blwyddyn. Mae hyn yn darparu cymorth defnyddiol yn yr ymdrech am gywirdeb a chysondeb.

39 Mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd, ni fu unrhyw hanes o safoni mewnol. Yn yr ysgolion hyn, mae swyddogion consortia rhanbarthol yn darparu cymorth i ddatblygu prosesau newydd.

40 Mae gan lawer o ysgolion raglen safoni barhaus trwy gydol y flwyddyn ysgol sy'n adlewyrchu dull y broses gymedroli yn fanwl. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn defnyddio proffiliau dysgwyr sy'n cynnwys llyfrau cyfan, tra bod lleiafrif ohonynt yn dibynnu o hyd ar gytuno ar lefelau darnau o waith unigol yn unig. Mae athrawon yn cyfeirio'n agos at ddisgrifwyr lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol i wneud yn siŵr bod safoni'n cadarnhau enghreifftiau cadarn o'r lefel. Fodd bynnag, nid oes digon o ysgolion yn canolbwyntio ddigon ar ddatblygu dealltwriaeth dda o ble mae'r ffin rhwng lefelau. Yn ychwanegol, mewn lleiafrif o achosion yn unig y mae athrawon yn croesgyfeirio gwaith cyfredol â deunyddiau safonedig sy'n bodoli eisoes.

41 O ganlyniad, er gwaethaf gwelliannau yn y gweithdrefnau ar gyfer safoni, mewn lleiafrif o achosion, mae anghywirdeb yn parhau o ran dyfarnu lefelau.

42 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r broses safoni wedi sicrhau arfer well mewn meysydd eraill o fywyd ysgol. Er enghraifft, dywed lleiafrif o ysgolion fod y broses hon wedi cael effaith uniongyrchol ar gynllunio medrau effeithiol a datblygu ystod ehangach o gyfleoedd ysgrifennu i ymestyn disgyblion o wahanol alluoedd.

43 Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn creu deunyddiau safoni ysgol. Mae hon yn broses ddefnyddiol i ddatblygu dealltwriaeth well o lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a darparu deunyddiau safoni mwy pwrpasol i ysgolion eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oes system allanol i wirio cywirdeb y deunyddiau hyn.

44 Mae tua hanner yr ysgolion yn defnyddio ystod fwy helaeth o adnoddau i ategu'r arferion safoni. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio proffiliau cymedroli clwstwr, adnoddau oddi ar wefan Dysgu Cymru, proffiliau data sy'n defnyddio rhaglenni asesu masnachol neu systemau pwrpasol i olrhain ysgolion, i lywio'r broses sicrhau ansawdd hon. Mae'r dulliau aml haenog hyn yn cefnogi cysondeb a dibynadwyedd gwell mewn prosesau safoni.

45 Nid yw rhai ysgolion wedi adolygu eu deunyddiau safoni yn ddiweddar, ac nid oes ganddynt broses safoni ar waith chwaith.

## Cyfarfodydd cymedroli clwstwr

### Paratoi ar gyfer cymedroli clwstwr

46 Mae bron pob ysgol yn ymgymryd â gwaith asesu ychwanegol i baratoi proffiliau dysgwyr ar gyfer y cyfarfod cymedroli clwstwr. Mae'r gwaith paratoadol hwn yn digwydd mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae bron pob ysgol yn cwblhau 'sylwebaethau disgyblion' i esbonio pam y gwnaethant ddyfarnu'r lefel, ac ategu'r broses gymedroli. Mae llawer o ysgolion yn cwblhau labelu mwy helaeth o ran proffiliau dysgwyr, gan nodi'r dystiolaeth ar gyfer pob un o elfennau'r disgrifiwr lefel. Er bod hon yn broses ddefnyddiol wrth ddatblygu asesu sy'n fwy dibynadwy ac wrth wella dealltwriaeth athrawon o'r meini prawf ar gyfer lefelau, nid yw'r arfer hon yn gynaliadwy ar gyfer yr holl broffiliau, ac mae'n dasg ddiangen ar gyfer cymedroli clwstwr.

47 Mae rhai ysgolion yn dewis y proffiliau ymlaen llaw ar ddechrau'r flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu ffocws clir a chyson i'r ysgol neu'r adran ac yn caniatáu anodi a labelu llyfrau disgyblion yn fanwl i ddangos sut y llwyddwyd i gyflawni lefel trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, y perygl â'r dull hwn yw bod lefelau disgyblion yn cael eu pennu ymlaen llaw, neu mae'n cyfyngu ar ystod y cymedroli mewnol. Mae llawer o ysgolion yn lliniaru yn erbyn hyn trwy ddewis ystod addas o lyfrau ymlaen llaw, er bod hyn yn ychwanegu'n sylweddol at y baich gwaith marcio.

48 Mae lleiafrif o glystyrau yn cynnal 'ffug gyfarfodydd cymedroli' cynharach i lywio'r cyfarfodydd cymedroli clwstwr terfynol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi cydweithwyr cynradd ac uwchradd i drafod materion cywirdeb a thystiolaeth gyda'i gilydd cyn y cyfarfod cymedroli. Maent yn datblygu dealltwriaeth ar y cyd o lefelau, ac yn lleihau'r problemau a wynebir o ran cael digon o dystiolaeth i gymedroli'n effeithiol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, deuir â'r un proffiliau dysgwyr i'r cyfarfod cymedroli clwstwr terfynol ac mae hyn yn cadarnhau lefelau yn unig.

49 Mae'r amrywiad hwn o ran dull yn creu anghysondeb sylweddol yn y ffordd y mae cymedroli clwstwr yn hysbysu ysgolion ynglŷn â chywirdeb eu lefelau terfynol.

**Y dystiolaeth a ystyrir mewn cyfarfodydd clwstwr**

50 Mae bron pob ysgol gynradd yn dod â dau broffil dysgwr ar lefel 4 ac ar lefel 5, ac mae bron pob ysgol uwchradd yn dod â dau broffil ar lefel 5 ac ar lefel 6. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn dod â gwaith sy'n dangos naill ai fersiynau cadarn neu uwch o lefelau i'r cyfarfodydd cymedroli clwstwr a arsylwyd. Mae hyn yn cyfrannu at lawer o gytuno mewn cyfarfodydd cymedroli clwstwr. Hefyd, mae'n helpu i ddatblygu dealltwriaeth well ar gyfer athrawon ynglŷn â'r hyn sy'n gwneud lefel glir.

51 Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw cyfarfodydd cymedroli clwstwr yn adolygu proffiliau dysgwyr ar ffin is y lefel. Mae hyn yn golygu nad yw grwpiau clwstwr yn cynnig her gadarn i sicrhau bod lefelau ffiniol yn gywir.

52 Mae llawer o ysgolion yn dod â phroffiliau dysgwyr sy'n cynnwys llyfrau cyfan disgyblion. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn o ran darparu cyd-destun addas a thystiolaeth fwy cyfannol i gymedrolwyr drafod. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o gyfarfodydd clwstwr a arsylwyd, roedd athrawon yn adolygu dwy neu dair tasg unigol yn unig ar gyfer pob elfen (darllen, ysgrifennu a llafaredd) yn hytrach na llyfrau cyfan. Yn yr achosion hyn, anaml y mae athrawon yn cyfeirio at waith arall yn llyfrau disgyblion.

53 Mae cwmpasu'r tair elfen ar gyfer Cymraeg a Saesneg mewn cymedroli clwstwr yn adlewyrchu'r ystod a welir yn y dystiolaeth ar gyfer cymedroli yn yr ysgol. Mae mwyafrif o ysgolion yn dod ag ystod o dystiolaeth llafaredd wedi'i recordio i alluogi cymedrolwyr i farnu'r elfen hon. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw cyfarfodydd clwstwr yn cynnwys ystod ddigonol o dystiolaeth i wirio lefelau llafaredd. Mewn rhai achosion, caiff cymedroli ei rwystro gan ddiffyg cyd-destun fel sylwebaeth gyfyngedig y disgybl neu'r diffyg deunydd sbardunol, yn enwedig ar gyfer darllen. Yn y rhan fwyaf o achosion pan fydd bylchau mewn tystiolaeth, mae clystyrau yn cytuno ar lefelau o hyd. Nid yw hyn yn ddigon trylwyr ac mae'n tueddu i arwain at chwyddo lefelau.

54 Mewn rhai clystyrau, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gydag ysgolion i ddarparu cynllun gwaith cyffredin ar gyfer Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cynradd. Mae hyn wedi sicrhau mwy o gysondeb yn sail y dystiolaeth ar gyfer y broses cymedroli clwstwr.

**Trafod proffiliau mewn cyfarfodydd clwstwr**

55 Mae bron pob ysgol yn sicrhau bod staff priodol, gan gynnwys uwch arweinwyr, yn mynychu cyfarfodydd cymedroli clwstwr. Mae consortia rhanbarthol neu swyddogion awdurdod lleol yn mynychu mwyafrif o gyfarfodydd.

56 Mewn llawer o glystyrau, mae'r cadeirydd yn darparu arweiniad clir ar weithdrefnau'r cyfarfod. Mewn llawer o achosion, caiff cyfarfodydd eu llywio'n dda gan gyrsiau hyfforddi neu ddiweddariadau ar drefniadau newydd gan y consortia rhanbarthol neu drwy ddatblygiad parhaus y clwstwr. Yn yr achosion hyn, mae hyn yn arwain at gyfarfodydd trylwyr sy'n cael eu cynnal yn dda. Mae parau o athrawon o wahanol

ysgolion yn adolygu proffiliau dysgwyr ysgolion ei gilydd. Maent yn adolygu'r dystiolaeth gyda ffocws clir a chyson ar ddod o hyd i dystiolaeth i gefnogi'r medrau a bennwyd yn y disgrifiwr lefel. Yn y cyfarfodydd hyn, mae arweinwyr clwstwr yn ysgrifennu sylwebaeth ddefnyddiol yn esbonio barn y cymedrolwyr.

57 Mewn lleiafrif o gyfarfodydd clwstwr, mae'r gweithdrefnau ar gyfer cymedroli yn llai trylwyr. Yn y cyfarfodydd hyn, nid yw aelodau'r clwstwr yn cwblhau'r dasg gymedroli mewn ffordd systematig ac nid yw cyfarfodydd yn drylwyr. Er enghraifft, mewn rhai clystyrau, ceir trafodaeth grŵp cyfan am broffiliau dysgwyr ac fe gaiff y dystiolaeth ei throsglwyddo'n barhaus i'r holl gydweithwyr i drafod nifer o broffiliau dysgwyr ar yr un pryd. O ganlyniad, caiff proffiliau dysgwyr ysgolion eu herio'n llai trylwyr.

58 Bron ym mhob cyfarfod clwstwr, mae athrawon yn canolbwyntio'n dda ar adolygu proffiliau dysgwyr trwy archwilio'r dystiolaeth yng ngwaith disgyblion yn erbyn y disgrifwyr lefel. Wrth drafod y dystiolaeth, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyfeirio at lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r clwstwr yn rhoi ystyriaeth addas i lefel y cymorth a'r broses ddrafftio, lle caiff hyn ei ddarparu, wrth drafod cywirdeb lefelau.

59 Mewn llawer o achosion, mae trafodaethau'n agored a phroffesiynol, ac mae aelodau'r grwpiau yn cynnig her briodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o gyfarfodydd, mae cynnwys yr ysgol a ddaeth â phroffil y dysgwr yn y trafodaethau hyn yn rhwystro annibyniaeth y craffu. Mewn rhai achosion, mae'n arwain at gyfiawnhau'r lefelau a ddyfernir yn hytrach na chymedroli.

60 Yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd clwstwr, mae arweinydd y clwstwr yn darparu deunyddiau enghreifftiol. Fodd bynnag, anaml y defnyddir y deunyddiau hyn yn ystod cyfarfodydd cymedroli clwstwr.

61 Mewn llawer o'r cyfarfodydd clwstwr, ni chaiff y barnau sy'n cael eu llunio ar lafaredd eu cefnogi mor gryf â'r barnau ar gyfer darllen ac ysgrifennu. Mae tri phrif reswm am hyn. Nid oes digon o dystiolaeth i gymedroli'n gywir. Mae ansawdd y recordiadau yn rhy wael i farnu perfformiad disgyblion yn gywir. Mae ansicrwydd ynglŷn â'r graddau y dylid ystyried defnyddio sgriptiau, darllen neu'r anallu i weld y ciwiau cyfathrebu di-eiriau pan oedd y dystiolaeth yn glywedol nid yn weledol. Mae'r broblem hon yn amlwg iawn mewn Cymraeg ail iaith, yn enwedig ar gyfer ysgolion sy'n cyflwyno cyrsiau TGAU Cymraeg yn ystod Blwyddyn 9. Mae ysgolion uwchradd yn paratoi'r dystiolaeth yn unol â gofynion TGAU ac felly'n cynhyrchu recordiadau clywedol. Mae hyn yn cyferbynnu â'r dystiolaeth a gynhyrchir fel arfer gan ysgolion cynradd yn yr achosion hyn.

62 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd cymedroli gan y clwstwr yn cytuno â barnau'r ysgol ar lefelau proffiliau dysgwyr. Yn yr achosion prin lle caiff lefelau eu newid, caiff tua hanner ohonynt eu symud i fyny, ac fe gaiff tua hanner eu symud i lawr.

63 Pan fydd cyfarfodydd clwstwr yn herio'r farn ar broffiliau dysgwyr, mae llawer ohonynt yn agor y drafodaeth i'r grŵp cyfan adolygu ymhellach a chyrraedd sefyllfa gytûn. Bron ym mhob achos, mae'r ysgol yn derbyn y newidiadau ar gyfer y proffil dysgwr unigol. Mae arweinydd y clwstwr yn gwneud nodyn o'r newidiadau yn yr adroddiad i'r ysgol, ac mae'n ofynnol i ysgolion adolygu'r lefelau a ddyfarnwyd ar gyfer lefelau na chafwyd sampl ar eu cyfer.

## Camau gweithredu ysgolion i ymateb i gymedroli clwstwr

64 Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid 'adolygu, a diwygio os oes angen, unrhyw benderfyniad rhagarweiniol a wneir yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol i ystyried penderfyniadau a dyfarniadau'r grŵp clwstwr cymedroli ysgolion mewn perthynas â safoni a chymedroli asesiadau athrawon o ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol, (5(b))'. Yn ychwanegol, mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt 'weithredu dyfarniadau a phenderfyniadau'r grŵp clwstwr cymedroli ysgolion mewn perthynas â safoni a chymedroli asesiadau athrawon o ddisgyblion yn ystod y flwyddyn ysgol yn union cyn y flwyddyn ysgol gyfredol, (5(c))'.

65 Ar ôl cymedroli, mae pob clwstwr yn ysgrifennu adroddiad yn crynhoi canlyniad y cymedroli a'r camau y dylai ysgolion eu cymryd o ganlyniad. Mae mwyafrif yr adroddiadau clwstwr yn amlygu meysydd allweddol i'w gwella. Fodd bynnag, mae camau gweithredu ar gyfer adolygu proffiliau dysgwyr neu elfen o fewn maes pwnc yn ymddangos mewn rhai adroddiadau clwstwr yn unig. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau'n canolbwyntio ar faterion gweithdrefnol yn unig, fel coladu tystiolaeth, neu gynnwys ffynonellau ar gyfer asesiadau darllen.

66 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion brosesau clir i adrodd am y prif negeseuon o gymedroli clwstwr i'w hadrannau a'u hathrawon. Mewn rhai achosion, mae ysgolion a chlystyrau yn defnyddio Hwb i rannu adroddiadau a deunyddiau enghreifftiol. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn arwain at ddatblygiadau addas yn ymarferol.

67 Mewn un grŵp clwstwr yr ymwelwyd ag ef, pan na chytunir ar broffiliau, cynhelir cyfarfod arall i edrych yn fwy helaeth ar broffiliau dysgwyr. Mae ysgolion yn y clwstwr hwn yn ystyried mai'r lefelau a bennwyd yn y cyfarfod clwstwr yw'r rhai terfynol, fel mater o drefn. Mae hyn yn sbarduno adolygiad llawn o broffiliau dysgwyr yn yr ysgol, gyda newidiadau priodol yn cael eu gwneud i broffiliau dysgwyr tebyg. Mewn un achos, arweiniodd hyn at ostyngiad o 11 pwynt canran wrth ddyfarnu lefel 5 ar gyfer pwnc craidd yn yr ysgol uwchradd. Mae hon yn ffurf gadarn o gymedroli clwstwr.

68 Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn dangos yr un lefel o drylwyredd wrth gymhwyso canfyddiadau cymedroli clwstwr. Er y byddai llawer o ysgolion yn addasu lefel proffiliau dysgwyr unigol os cânt gyfarwyddyd gan y clwstwr i wneud hynny, mae graddau'r cytundeb a geir mewn cyfarfodydd cymedroli clwstwr yn cyfyngu ar yr angen am weithredu pellach. Nid yw ysgolion yn adolygu a diwygio lefelau proffiliau dysgwyr ar gyfer gweddill y garfan yn rheolaidd.

69 Mae lleiafrif o glystyrau yn cynnal eu cyfarfod cymedroli dymor llawn cyn i'r lefelau gael eu terfynu gyda Llywodraeth Cymru. Yn yr achosion hyn, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio cymedroli i gefnogi asesu a galluogi disgyblion i ymateb i unrhyw ddiffygion yn eu proffil dysgwr.

70 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweld y broses cymedroli clwstwr yn ddefnyddiol iawn, ac mae llawer ohonynt yn disgrifio eu clwstwr fel 'ffrind beirniadol'. Mae wedi dod yn broses fwy trylwyr a chryfach. Mae wedi dechrau gwella'r ymddiriedaeth mewn lefelau rhwng y sectorau, er bod lleiafrif o ysgolion uwchradd yn pryderu o hyd ynghylch lefelau chwyddedig adeg trosglwyddo.

71 I’r rhan fwyaf o ysgolion, mae cymedroli clwstwr wedi gwella arfer asesu. Mewn mwyafrif o glystyrau, mae ysgolion uwchradd yn cynnig cymorth cryf o ran datblygu cydweithwyr cynradd wrth iddynt asesu Cymraeg ail iaith a lefelau uwch. Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd wedi cynyddu eu disgwyliadau a chryfhau eu darpariaeth o ganlyniad i’r ddealltwriaeth y maent wedi ei hennill ynglŷn â’r lefel y mae disgyblion yn ei chyflawni yn yr ysgol gynradd, yn enwedig mewn Cymraeg ail iaith.

72 Mewn lleiafrif o glystyrau, mae’r cyfarfod cymedroli clwstwr yn rhan o berthynas weithio gref a datblygiadol sy’n cynnwys olrhain cynnydd disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o un ysgol i’r llall.

73 Mae bron pob ysgol uwchradd yn defnyddio’r wybodaeth o asesiadau gan ysgolion cynradd fel rhan o’u trefniadau ar gyfer gosod targedau a rhaglenni ymyrraeth wrth i ddisgyblion drosglwyddo o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

74 Mae mwyafrif o ysgolion yn defnyddio’r broses gymedroli i lywio a datblygu arferion addysgu a dysgu, yn ogystal â nodi neu ddatblygu cyfleoedd ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae bron pob ysgol yn gweld y broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod gan athrawon amgyffrediad da o alluoedd disgyblion unigol ac i lywio’r modd y gall disgyblion wneud cynnydd.

75 Mynegodd lleiafrif o arweinwyr ysgol bryderon am yr effaith a gaiff pwysau atebolrwydd ar ddilysrwydd a chywirdeb asesiadau athrawon. Yn benodol, maent yn pryderu bod atebolrwydd sy’n gysylltiedig ag asesiadau athrawon yn arwain at lefelau chwyddedig, nad ydynt yn cysylltu’n uniongyrchol â gwelliant dilys mewn safonau.

## Rôl consortia ac awdurdodau lleol

76 Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a’r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015 yn datgan, ‘Caiff prif swyddog addysg pob awdurdod lleol y mae ysgol a gynhelir yn ei ardal sy’n aelod-ysgol o’r grŵp clwstwr cymedroli ysgolion, neu gynrychiolydd y person hwnnw, fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o grŵp clwstwr cymedroli ysgolion at ddiben ceisio sicrhau cysondeb o ran cymedroli a safoni arferion asesiadau athrawon ar draws yr holl grwpiau clwstwr cymedroli ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw, (6(3)).’

77 Caiff y rhan fwyaf o ysgolion eu cynorthwyo’n dda yn y gweithdrefnau ar gyfer cymedroli a safoni gan gonsortia rhanbarthol. Er enghraifft, mae consortia rhanbarthol wedi cynllunio fframweithiau ac adnoddau asesu defnyddiol, wedi datblygu cyfleoedd i rannu arfer ar draws ysgolion ac wedi cynorthwyo yn y prosesau gweinyddu cymedroli.

78 Fodd bynnag, mae rôl cynrychiolwyr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol mewn cymedroli safonau yn parhau i fod yn aneglur o ran sicrhau lefelau cyson ar draws clystyrau. Mae’r gofyniad y ‘cânt’ fynychu yn creu anghysondeb o ran y nifer sy’n mynychu cyfarfodydd clwstwr. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod eu cynrychiolwyr mewn cyfarfodydd cymedroli yn arsylwi’r broses gymedroli. Mewn

ychydig iawn o achosion, mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol yn cymryd rôl weithredol neu arbenigol o ran arwain penderfyniadau ar lefel derfynol proffiliau dysgwyr.  Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn tybio bod presenoldeb yr awdurdod lleol neu gonsortia rhanbarthol mewn cyfarfodydd cymedroli clwstwr yn cadarnhau'r lefelau a gytunir.

## Atodiad: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio ymweliadau ag wyth cyfarfod cymedroli clwstwr, naw ysgol gynradd a saith ysgol uwchradd. Mae'r sampl yn defnyddio arferion o bob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol ac yn ystyried cefndir economaidd gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Fe wnaeth arolygwyr hefyd ystyried ystod yr arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, ystyriodd arolygwyr adroddiadau arolygu diweddar Estyn ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd.

Mewn cyfarfodydd clwstwr, bu arolygwyr:

- yn arsylwi'r trafodaethau a gynhaliwyd gan athrawon ac uwch arweinwyr
- yn adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd yn y proffiliau dysgwyr a dogfennau eraill a ddefnyddir i gefnogi cymedroli
- yn trafod y gweithdrefnau gyda chynrychiolydd y consortiwm, arweinwyr y clwstwr a'r athrawon pan oeddent ar gael

Mewn ymweliadau ag ysgolion, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod ag uwch arweinwyr, arweinwyr canol ac athrawon i drafod prosesau'r ysgol ar gyfer cymedroli a safoni gwaith disgyblion
- yn adolygu sampl o broffiliau dysgwyr

Rhestr o glystyrau ac ysgolion yr ymwelwyd â nhw

| Clwstwr | Ysgolion |
|---|---|
| Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd | Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd<br>Ysgol Gynradd Gladstone, Caerdydd |
| Maesydderwen, Powys | Maesydderwen, Powys<br>Ysgol Y Cribarth, Powys |
| Ysgol Uwchradd Casnewydd, Casnewydd | Ysgol Uwchradd Casnewydd, Casnewydd<br>Ysgol Gynradd Crindau, Casnewydd |
| Pen Y Dre, Merthyr Tudful | Pen Y Dre, Merthyr Tudful<br>Ysgol Gynradd Dowlais, Merthyr Tudful |
| Ysgol Gyfun Tredegar, Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Tredegar, Blaenau Gwent<br>Ysgol Gynradd Georgetown, Blaenau Gwent |
| Ysgol Ardudwy, Gwynedd | Ysgol Cefn Coch, Gwynedd<br>Ysgol Y Traeth, Gwynedd |
| Ysgol Bryn Elian, Conwy | Ysgol Bryn Elian, Conwy<br>Ysgol Iau Hen Golwyn, Conwy |
| Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe | Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe<br>Ysgol Gynradd Gymraeg, Pontybrenin |

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Clwstwr | Ysgol uwchradd a'i phrif ysgolion cynradd partner |
| Cymedroli | Y broses i gytuno (yn fewnol yn yr ysgol, neu'n allanol ar draws y clwstwr) ar y lefel sy'n gweddu orau y mae dysgwr yn gweithio arni |
| Cysondeb | Ystyrir cysondeb mewn perthynas â thebygrwydd y dull a ddefnyddir mewn ysgol, ar draws ysgolion ac ar draws clystyrau. Gallai hyn ymwneud â'r prosesau safoni a chymedroli, sail y dystiolaeth a'r lefelau a ddyfernir ar gyfer proffiliau dysgwyr. |
| Cywirdeb | Mae cywirdeb y lefelau'n ymwneud â'r modd y mae nodweddion proffiliau'r dysgwyr yn adlewyrchu'r nodweddion yn nisgrifwyr lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Dibynadwyedd | Bydd dibynadwyedd y broses lefelu'n dibynnu ar ystod sail y dystiolaeth a thrylwyredd y prosesau cymedroli a safoni. Mae'n mesur p'un a yw proffil y dysgwr yn cynnwys ystod a her y gwaith i gyfiawnhau dyfarnu lefel. Hefyd, mae'n mesur p'un a oes digon o wybodaeth i lunio barn gywir ar lefel (er enghraifft, y cyd-destun y cwblhaodd y dysgwr y gwaith ynddo, lefel y cymorth a gafwyd, ac ati.). |
| Lefel gadarn | Mae hyn yn disgrifio gwaith sy'n gadarn o fewn lefel benodol y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Gweddu orau | Mae barnau 'gweddu orau' yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon neilltuo'r disgrifiwr lefel sy'n gweddu orau i waith disgybl. |
| Gwirio | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhaglen genedlaethol, 'Sicrhau Asesiadau Athrawon – Rhaglen Wirio Allanol', i wirio'n allanol y lefelau a ddyfernir gan ysgolion ac a gadarnhawyd mewn grwpiau clwstwr. Cyflawnir hyn trwy archwilio samplau. |
| Proffil y dysgwr | Yr holl dystiolaeth sydd ar gael gan ddysgwr unigol sy'n dangos ei ddealltwriaeth a'i ddefnydd annibynnol o fedrau ar draws ystod o gyd-destunau |
| Safoni | Y broses lle defnyddir samplau o waith a gwblhawyd yn y gorffennol i alluogi athrawon i gytuno ar lefelau cyrhaeddiad trwy gadarnhau dealltwriaeth ar y cyd o nodweddion lefel |

## Cyfeiriadau


Cyngor Ymchwil Addysg Awstralia (ACER) *Ymchwiliad i asesiadau athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/caecd/research/130718-investigation-key-stages-2-3-teacher-assessment.pdf [Defnyddiwyd 4 Awst 2016]. (Saesneg yn unig.)

Estyn (2010) *Arfarniad o'r trefniadau i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Arfarniad%20o%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20trefniadau%20i%20sicrhau%20cysondeb%20asesiadau%20athrawon%20yn%20y%20pynciau%20craidd...%20-%20Mawrth%202010.pdf [Defnyddiwyd 4 Awst 2016].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015.* SI 1309: 113. Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi Cyf. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1309/article/5/made [Defnyddiwyd 4 Awst 2016].

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008a) *Saesneg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130508-english-guidence-en.pdf [Defnyddiwyd 4 Awst 2016]. (Saesneg yn unig.)

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008b) *Cymraeg - Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (Cymraeg yn unig).* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/resources/browse-all/welsh-guidance-key-stages-2-3/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 4 Awst 2016].

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2010) *Manteisio i'r eithaf ar asesu 7–14*. 034/2010. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130425-making-the-most-cy.pdf [Defnyddiwyd 4 Awst 2016].

Llywodraeth Cymru (2015a) *Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg: Cyfnodau Allweddol 2–4.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150717-nc-english-cy-v3.pdf [Defnyddiwyd 4 Awst 2016].

Llywodraeth Cymru (2015b) *Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg: Cyfnodau Allweddol 2–4.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150717-nc-welsh-cy-ve3.pdf [Defnyddiwyd 4 Awst 2016].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015c) *Cymraeg Ail Iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150707-welsh-second-language-en.pdf [Defnyddiwyd 4 Awst 2016].

Llywodraeth Cymru, Is-adran Cwricwlwm (2015d) *Trefniadau asesu statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.* 185/2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/141030-statutory-assessment-arrangements-cy-v2.pdf [Defnyddiwyd 4 Awst 2016].